**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg o fewn Adran Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

28 Mawrth 2025

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Offeryn yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("Rheoliadau 2022").

1.2 Gwnaed Rheoliadau 2022 ym mis Rhagfyr 2022. Maent yn ymdrin â methiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Un elfen o Reoliadau 2022 oedd cadw swyddogaethau a geir yng nghyfarwyddebau'r UE a'u breinio i Weinidogion Cymru. Mae'r Offeryn yn mynd i'r afael â hepgoriad yn Rheoliadau 2022 ynghylch un swyddogaeth ddeddfwriaethol.

### 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â phwynt adrodd 25 a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 7 Rhagfyr ar Reoliadau 2022, SL(6)292.

2.2 Gan mai unig bwrpas y Gorchymyn yw delio â gwall yn Rheoliadau 2022, dilynir y weithdrefn cyhoeddi am ddim.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn "gosod yn unig"; ar ôl gwneud y Gorchymyn, bydd gofyn ei osod gerbron Senedd Cymru yn rhinwedd adran 10(6) o Ddeddf 1981, fel y'i darllenir gyda pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.2 Rhoddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf 1981 yn wreiddiol i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cael eu harfer mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban o ran Cymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004. Mae swyddogaethau hyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.3 Mae adran 10 o Ddeddf 1981 yn rhoi pwerau i wneud gorchmynion. Mae adran 10(6) o'r un Ddeddf, fel y'i darllenir gyda pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ei gwneud yn ofynnol i Orchmynion a wneir o dan adran 10 gael eu gosod yn y Senedd ar ôl iddynt gael eu gwneud.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2009/156/EC ("y Gyfarwyddeb Ceffylau") yn gosod amodau iechyd anifeiliaid wrth symud ceffylau byw rhwng Aelod-wladwriaethau ac wrth eu mewnforio o drydydd gwledydd. Diwygiodd Rheoliadau 2022 ddarpariaethau o fewn y Gyfarwyddeb Ceffylau a darparu ar gyfer swyddogaethau penodol y cyfeirir atynt i'w trin fel rhan o gyfraith ddomestig ac i'w harfer gan Weinidogion Cymru.

4.2 Mae un swyddogaeth a gynhwysir yn erthygl 5(5)(a) o'r Gyfarwyddeb Ceffylau (fel y'i haddaswyd) yn darparu, drwy gyfeirio at wneud rheoliadau, ar gyfer amser o'r flwyddyn pan y ceid anfon ceffylau o barthau ag achos o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau (AHS) i Gymru.

4.3 Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae hepgor cyfeiriad at y pŵer hwn yn Atodlen Rheoliadau 2022 yn golygu na fyddai erthygl 5(5)(a) o'r Gyfarwyddeb Ceffylau, fel y'i diwygiwyd, yn bŵer effeithiol ar gyfer gwneud rheoliadau. Er mwyn mynd i'r afael â'r camgymeriad hwn, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r addasiad a wnaed i erthygl 5(5)(a) (gan reoliad 18(6)(e)(ii) o Reoliadau 2022) i'r Gyfarwyddeb Ceffylau, i gyfeirio at Orchmynion a wneir o dan adran 10 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ('Gorchmynion adran 10'). Mae Gorchmynion Adran 10 yn ei gwneud yn bosibl gwneud darpariaeth gyfatebol i'r swyddogaeth a hepgorwyd yn yr Atodlen i Reoliadau 2022. Bydd y diwygiad hwn yn galluogi unrhyw Orchymyn a wneir o dan adran 10 at ddibenion AHS i gael ei ymgorffori o fewn trefn orfodi TARP.

## 5. Ymgynghori

5.1 Gan fod y Gorchymyn yn darparu ar gyfer diwygiad mân, sy'n effeithio ar nifer fach o unigolion ac nad yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

5.2 Mae adran 91 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn ei gwneud yn ofynnol i Orchmynion a wneir o dan y Ddeddf honno gael eu cyhoeddi yn y London and Edinburgh Gazettes.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Gan fod yr offerynnau hyn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.